

# **Mwy na geiriau:** Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Jacob Franklin. Dwi'n astudio Eidaleg a Cherddoriaeth.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Mae gen i ddealltwriaeth eitha da a hyder i siarad Ffrangeg a Sbaeneg gan i mi eu hastudio fel pynciau Safon Uwch. Mi wnes i ddechrau astudio Eidaleg o'r newydd yn y brifysgol gan ei bod yn iaith ro'n i wedi bod eisiau ei hastudio erioed ac mae'n cyd-fynd yn dda efo cerddoriaeth – fy mhwnc arall. Ar ben hynny, mi fydda i'n gallu astudio cerddoriaeth yn yr Eidal yn ystod fy mlwyddyn dramor! Ar hyn o bryd, dwi'n dysgu Cymraeg mewn sesiynau unwaith yr wythnos gan fy ffrind anhygoel!

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Yn ystod fy mlynyddoedd yn gwneud TGAU.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Dwi wedi gwneud ffrindiau yn Sbaen a Ffrainc oherwydd i mi fynd ar deithiau trochi iaith dramor pan o'n i'n iau. Mae dysgu ieithoedd wedi rhoi llawer o hyder i mi hefyd!

5. **Sut** mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?
   I fi, mae wedi agor fy meddwl i ddiwylliannau eraill ac i fwy o amrywiaeth o gwmpas y byd. Bydd y profiad bywyd yma yn bendant yn fy helpu yn broffesiynol.

www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Therapi Cerddoriaeth/Therapi Iaith a Lleferydd.

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Cael y cyfle i fynd i'r Eidal a siarad Eidaleg gydag Eidalwyr, a theimlo fy mod i wedi cyflawni rhywbeth! Dwi'n bell o fod lle'r hoffwn i fod, ond mi wnes i gam enfawr i'r cyfeiriad iawn.

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Rhannu fy nghariad at ieithoedd yn y project Mentora ITM a phrofi llawer o gyfleoedd addysgol.

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Mae diffyg cymhelliant yn bendant yn broblem i fi weithiau a dwi ddim yn meddwl bod ni'n siarad digon am hyn efo'r dysgwyr. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i bynciau heriol wrth ddysgu iaith neu oherwydd i ti golli rhythm o ran cysondeb dy ddysgu.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
    *Aiuole* – sef 'Gwelyau blodau' yn Eidaleg. Dyma'r unig air dwi'n gwybod amdano sy'n defnyddio'r llafariaid i gyd ac mae o'n swnio'n hyfryd!

11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
    Byddwn i wrth fy modd yn dysgu Portiwgaleg. Mae Portiwgal yn wlad mor anhygoel. Mi es i i'r wlad pan o'n i'n tyfu i fyny ac mae gan yr iaith bethau'n gyffredin efo ieithoedd eraill dwi'n 'nabod.

12. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
    Mae wedi rhoi'r platfform i mi siarad efo myfyrwyr, nid yn unig i roi hwb i nifer y bobl sy'n astudio ieithoedd, ond hefyd i rannu sut beth ydy dysgu ieithoedd efo pobl eraill, a helpu'n gilydd😊.

13. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
    Fy athrawes TGAU Sbaeneg anhygoel, Miss Flores. Roedd hi'n athrawes hollol wych ac mae hi'n dal i gredu ynof i hyd heddiw. Allwn i ddim diolch digon iddi am roi arweiniad anhygoel i mi i'r brifysgol a thu hwnt!

14. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
    Pan o'n i'n 13 oed, ro'n i'n aros efo dynes hŷn o Sbaen ac ro'n i eisiau gofyn "ydy hi'n boeth heddiw?" Mi ddefnyddiais i'r gair "*caliente*" sy'n gallu golygu "poeth" os wyt ti'n sôn am "siocled poeth" neu "gi poeth", ond nes i ddweud "*está caliente?*" Mae hynny'n golygu rhywbeth eithaf amhriodol!
15. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
    Cofiwch ymddiried yn y broses, ond yn bwysicaf oll, mwynhewch y broses a'i gwneud yn gymaint o hwyl â phosib!

[www.mflmentoring.co.uk](http://www.mflmentoring.co.uk)
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**